Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Llandrindod
# Dyffryn Road
# Llandrindod
# Powys
# LD1 6AW

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg 11-18 oed cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd Llandrindod, yn nhref Llandrindod. Mae'n gwasanaethu dalgylch mawr iawn a daw tua hanner y disgyblion o drefi Llandrindod a Rhaeadr.

Mae 599 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, a 79 yn y chweched dosbarth, o gymharu â 643 adeg yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2009 pan oedd 102 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae un ar ddeg pwynt chwech y cant (11.6%) o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.5%. Daw tua 3% o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfwerth.

Mae gan ryw 19% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20.1%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (4%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%. Mae'r Ganolfan Arbenigol Asperger a'r Ganolfan Adnoddau sydd wedi eu lleoli yn yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion y gwnaed diagnosis bod ganddynt Gyflwr y Sbectrwm Awtistig (ASC).

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed nifer o newidiadau i strwythur arweinyddiaeth yr ysgol. Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2014. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth dros dro a dau bennaeth cynorthwyol dros dro. Mae'r corff llywodraethol yn disgwyl gwneud penodiadau parhaol ar gyfer y swyddi hyn yn y dyfodol agos.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Llandrindod yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,146 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,406 a'r isafswm yw £1,895. Mae Ysgol Uwchradd Llandrindod yn chweched allan o'r 12 ysgol uwchradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- y gwelliant cyson mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd diwethaf;
- y gwelliant sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ym mhresenoldeb disgyblion, sy'n cymharu'n dda â lefelau mewn ysgolion tebyg erbyn hyn; a'r
- agweddau brwdfrydig a llawn cymhelliant at ddysgu sy'n cael eu dangos gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae perfformiad mewn dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 gryn dipyn islaw disgwyliadau ac yn sylweddol is na pherfformiad ysgolion tebyg;
- yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched ac mae'r bwlch wedi bod yn llawer mwy na chyfartaleddau teuluol a chenedlaethol fel ei gilydd mewn llawer o ddangosyddion dros y pedair blynedd diwethaf;
- mae gormod o ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol wrth gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau;
- nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon da;
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at fodloni gofynion statudol y fframwaith llythrennedd a rhifedd;
- mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod; ac
- mewn lleiafrif o achosion, nid yw gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion yn ddigon da, ac yn rhy aml, mae'r marcio yn frysiog a sylwadau athrawon yn arwynebol.

### Rhagolygon gwella

Mae nodweddion da yn arweinyddiaeth yr ysgol, gan gynnwys:

- y sefydlogrwydd gwell a ddarperir yn sgil penodi pennaeth parhaol yn ddiweddar, sydd wedi helpu i atgyfnerthu diwylliant ac ethos yr ysgol;
- gwerthusiad realistig uwch arweinwyr o gryfderau a meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad; a
- gweledigaeth ac ymrwymiad yr uwch dîm arweinyddiaeth ar y cyd i wella gwaith yr ysgol.

Fodd bynnag, bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol;
- ni chafwyd cyfeiriad clir na disgwyliadau uchel o ran llawer o agweddau ar waith yr ysgol;
- nid yw rhai arweinwyr pwnc yn monitro a gwella gwaith eu timau yn ddigon trylwyr;

- nid yw trefniadau rheoli perfformiad a rheoli llinell yn ddigon trylwyr ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar sicrhau bod pob un o’r staff yn rhoi polisïau a mentrau ar waith yn gyson, ac ar wella safonau ar draws y cwricwlwm;
- nid yw trefniadau hunanarfarnu a phrosesau cynllunio datblygu yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant ar draws holl feysydd gwaith yr ysgol; ac
- mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth

A2 Mynd i’r afael â thanberfformio ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn yng nghyfnod allweddol 4

A3 Gwella cydlynu a chynllunio ar gyfer dilyniant o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a’r asesu

A5 Gwella effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ar bob lefel i sicrhau cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel yn holl feysydd gwaith yr ysgol

A6 Cynyddu atebolrwydd ar bob lefel ar gyfer gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig trwy reolaeth linell drylwyr

A7 Cryfhau trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut mae’n bwriadu mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod yn sylweddol islaw perfformiad ysgolion tebyg a chryn dipyn islaw disgwyliadau.

Yn 2014, bu gostyngiad yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 yn y dangosyddion allweddol hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg ac islaw disgwyliadau ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Er bod perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella yn 2014, mewn llawer o achosion, mae perfformiad yn parhau i fod islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Er bod perfformiad mewn Saesneg wedi gwella ychydig yn 2014, bu gostyngiadau sylweddol yng nghanrannau'r disgyblion sy'n cyflawni gradd A*-C mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Ym mwyafrif y dangosyddion allweddol, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol. Mewn llawer o ddangosyddion, mae cynnydd ymhell islaw disgwyliadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ac yn 2014, mae'n cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae merched yn perfformio gryn dipyn yn well na bechgyn ar y lefelau uwch ym mhob un o'r pynciau craidd.

Mae myfyrwyr ôl-16 fwy neu lai yn perfformio yn unol â disgwyliadau. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod uwchlaw'r sgôr ar gyfer ysgolion tebyg ar y cyfan. Fodd bynnag, yn 2014, mae canran y myfyrwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi gostwng tua saith pwynt canran.

Yn y pum mlynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael addysg heb unrhyw gymwysterau. Mae cyfran y disgyblion sy'n aros mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfran a adawodd yr ysgol yn 16 oed y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn well na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched ac mae'r bwlch wedi bod yn sylweddol fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol mewn llawer o ddangosyddion dros y pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae hyn wedi digwydd am fod perfformiad bechgyn ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg ac islaw cyfartaleddau cenedlaethol mewn tua hanner yr achosion.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill. Mewn llawer o ddangosyddion, mae perfformiad y disgyblion hyn wedi bod yn gwella dros y ddwy flynedd diwethaf, ond o sylfaen isel iawn. Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaleddau ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol mewn llawer o ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd perfformiad y disgyblion hyn ymhell islaw cyfartaleddau ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol ym mhob un o'r pynciau craidd.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol sy'n aml yn dda mewn perthynas â'u galluoedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Ym mwyafrif y gwersi, gwnânt gynnydd addas o ran ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau, ac o ran caffael dealltwriaeth gadarn o gysyniadau newydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn y gwersi hyn, nid yw llawer o ddisgyblion yn hyderus o ran cymhwyso eu dysgu cynharach i fynd i'r afael â phroblemau newydd ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylder na dyfnder yn eu hatebion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir a hyderus ac yn gwneud cyfraniadau sylweddol at drafodaethau i fynegi eu syniadau a'u barn. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant da. Gallant ddewis gwybodaeth o ystod o ffynonellau i grynhoi digwyddiadau ac esbonio prosesau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dadansoddi ac yn llunio casgliadau priodol o wybodaeth a ddarllenwyd mewn ystod o destunau. Mae rhai disgyblion yn betrusgar ac yn ddihyder wrth ddarllen. Caiff disgyblion is eu gallu anhawster yn dewis ystod addas o wybodaeth i lunio atebion ar wahân i rai byr, syml.

Mewn rhai pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn dangos y gallu i ysgrifennu'n gywir ac yn estynedig, gan drefnu eu syniadau wrth ysgrifennu at wahanol ddibenion. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio atalnodi a gramadeg yn briodol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi diofal, tra bod rhai ohonynt yn cyflwyno eu gwaith yn wael. Mae disgyblion mwy abl yn llunio dadansoddiadau strwythuredig a rhesymedig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig nac yn ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae atebion ysgrifenedig yn rhy fyr, heb esboniadau manwl.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau rhif yn dda. Defnyddiant eu medrau rhesymu rhifiadol yn dda i nodi strategaethau priodol mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn hyderus wrth gymhwyso'r medrau hyn. Mae rhai ohonynt yn gwneud camgymeriadau sylfaenol wrth gyflwyno graffiau.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae pob un o'r disgyblion yn dilyn y cwrs llawn mewn TGAU Cymraeg ail iaith. Maent yn gwneud cynnydd da ac yn gwneud yn dda yn yr

arholiad TGAU. Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dywed llawer ohonynt fod achosion o fwlio yn cael eu trin yn effeithiol. Mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at oedolion ac ymwelwyr a dangosant ofal a phryder am ei gilydd.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n heini ac iach trwy weithgarwch corfforol a diet cytbwys. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn y rhaglen o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol, gan fanteisio'n llawn ar ystod eang y gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd.

Mae ymddygiad mewn gwersi yn dda ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac wedi eu cymell yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn tarfu ar waith disgyblion eraill. Caiff hyn effaith negyddol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol, er bod cynnydd wedi bod yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

Mae ffigurau presenoldeb yr ysgol yn dangos gwelliant sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r corff hwn wedi dylanwadu ar newidiadau i wisg yr ysgol a'r polisi ymddygiad. Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n dda at hyrwyddo ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol ac at wella amgylchedd yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyngedig fu dylanwad y disgyblion ar adolygu a chryfhau agweddau ar addysgu a dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn dda, er enghraifft trwy ddarparu cymorth mentora i aelodau iau o'r ysgol. Mae disgyblion yn trefnu digwyddiadau codi arian yn rheolaidd i gefnogi elusennau fel Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Bracken.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn bodloni gofynion statudol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i hysgolion cynradd partner i sicrhau bod y cwricwlwm, yng nghyfnod allweddol 3, yn adeiladu'n briodol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae cydweithio agos gyda phartneriaid yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn sicrhau ystod addas o lwybrau academaidd a galwedigaethol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ychydig iawn o ddisgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn llawn.

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i lawer o fyfyrwyr chweched dosbarth ennill cymwysterau medrau hanfodol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau a theithiau allgyrsiol, gan gynnwys rhaglen '5x60', ymweliadau addysgol dramor a gweithgareddau drama. Mae'r rhain yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

Trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ac ar draws ystod o feysydd y cwricwlwm, mae disgyblion yn caffael dealltwriaeth gadarn o faterion yn gysylltiedig â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Atgyfnerthir yr agwedd hon gan waith brwdfrydig y pwyllgor eco.

Ni chaiff strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm eu cydlynu na'u cynllunio'n ddigon da. Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 3 yn dilyn rhaglen 'Dysgu i ddysgu' ar wahân. Mae'r gwersi hyn yn helpu i wella medrau llythrennedd disgyblion ond nid ydynt yn llywio nac yn adeiladu'n briodol ar ddulliau ysgol gyfan. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ennill cymwysterau medrau perthnasol. Ceir cynllun ymyrraeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol gwan. Fodd bynnag, nid yw pob adran yn addasu gwaith yn briodol i gefnogi datblygiad medrau'r disgyblion hyn mewn gwersi prif ffrwd. Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at fodloni gofynion statudol y fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 ac yn cwblhau'r cwrs TGAU llawn yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, ni chaiff y dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n gyson ar draws holl feysydd gwaith yr ysgol a chyfyngedig yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y tu allan i wersi.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn datblygu perthynas waith adeiladol sy'n helpu i ennyn diddordeb disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio holi yn dda i brofi dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i feddwl am destunau a materion penodol. Mewn llawer o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd da i weithio mewn parau neu grwpiau bach i ddatrys problemau, cynorthwyo ei gilydd a datblygu eu medrau cyfathrebu.

Caiff mwyafrif y gwersi eu cynllunio'n dda. Maent yn cynnwys ystod o weithgareddau dysgu wedi eu cynllunio'n dda ac adnoddau ysgogol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da o ran caffael gwybodaeth newydd a deall cysyniadau allweddol. Yn y gwersi hyn, ceir amgylchedd dysgu cefnogol ac mae staff yn monitro grwpiau ac unigolion yn dda i gefnogi eu dysgu. Rhoddir ffocws penodol yn aml ar ddefnyddio terminoleg dechnegol ac ar strategaethau penodol i wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion yn ddigon da. Nid yw athrawon yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion gwahanol alluoedd, yn arbennig y disgyblion hynny sy'n fwy abl. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Nid yw cyflymdra'r gwersi hyn yn

briodol ac ni chyflawnir amcanion dysgu. Yn aml, nid yw athrawon yn esbonio cysyniadau ac agweddau newydd yn ddigon clir. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da.

Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu tasgau gwaith cartref rheolaidd ac ystyrlon a fyddai'n atgyfnerthu ac yn ymestyn dysgu disgyblion, yn enwedig o ran herio disgyblion mwy abl.

Mae adborth llafar i ddisgyblion am ansawdd eu gwaith yn cyfrannu'n dda at eu cynnydd. Fodd bynnag, mae ansawdd marcio gwaith disgyblion gan athrawon yn anghyson. Yn rhy aml, mae'r marcio yn frysiog, ni ddefnyddir codau marcio yn briodol ac mae sylwadau athrawon yn arwynebol. Yn ddiweddar, bu pwyslais datblygol ar ddarparu cyngor cliriach i helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mewn rhai achosion, mae hyn yn dechrau cael ei ddefnyddio'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol. Mae athrawon yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i nodi tanberfformio a phennu ble mae angen ymyriadau. Cryfhawyd y broses hon eleni, ac fe gaiff staff fanteisio ar gronfa gynhwysfawr a mwy hygyrch o wybodaeth.

Mae adroddiadau i rieni yn fuddiol, ac yn dangos y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Mae llawer ohonynt yn cynnwys targedau clir ar gyfer gwella, sy'n benodol i bwnc.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles corfforol disgyblion yn dda. Mae staff yn gweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod eang o faterion cymdeithasol, moesol a diwylliannol. Mae disgyblion yn dangos synnwyr cryf o gydwybod gymdeithasol ac yn cefnogi ystod eang o elusennau yn rheolaidd fel Ymchwil Canser MacMillan a Thŷ Gobaith. Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar faterion ysbrydol yn dda mewn gwersi addysg grefyddol. Mae'r rhaglen gwasanaethau grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol, y caiff llawer ohonynt eu harwain gan glerigwyr lleol, yn helpu i atgyfnerthu'r agweddau hyn.

Ceir cysylltiadau sefydledig ag ystod eang o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn darparu cymorth ac arweiniad targedig i ddisgyblion ac fe gânt effaith gadarnhaol ar eu hiechyd emosiynol, eu hymddygiad a'u presenoldeb.

Mae'r ysgol yn galluogi i ddisgyblion hŷn gael cyfleoedd gwerthfawr i roi cymorth fel mentoriaid cyfoedion i gyfoedion iau. Mae'r dull hwn yn darparu cymorth parhaus buddiol ar gyfer gwaith disgyblion ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol.

Rhoddir cyngor ac arweiniad buddiol i ddisgyblion sy'n eu cynorthwyo yn gyffredinol i wneud dewisiadau priodol wrth ystyried cyrsiau i'w hastudio yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, mae cyfle i fanteisio ar arweiniad gyrfaoedd yn llai effeithiol. Mae rhai disgyblion cyfnod allweddol 4 yn teimlo'n llai gwybodus am y cyngor a gânt wrth iddynt wneud eu dewisiadau pwnc ac ystyried gyrfaoedd posibl.

Rhoddir cymorth priodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cysylltiadau datblygedig ag ysgolion cynradd partner yn helpu i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar a darpariaeth addas yn cael ei rhoi ar waith. Caiff disgyblion sy'n agored i niwed eu cynorthwyo'n dda gan y ganolfan Asperger yn yr ysgol. Mae cynlluniau addysg unigol yn ddogfennau manwl a defnyddiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth sylweddol am gyflyrau penodol a strategaethau addas i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw rhieni disgyblion nad oes ganddynt ddatganiad yn cymryd rhan mewn datblygu'r cynlluniau. Nid yw'r trefniadau i sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r strategaethau gorau i fodloni anghenion disgyblion penodol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ddigon systematig. Er gwaethaf hyn, mae athrawon yn gweithio'n dda gyda staff cymorth dysgu i roi cymorth addas i ddisgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd, sy'n eu helpu i wneud cynnydd cadarn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos gofalgar iawn yn yr ysgol ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol sydd ag awyrgylch tawel a phwrpasol. Rhoddir pwyslais addas ar gydnabod cyflawniadau disgyblion, yn ogystal â sicrhau bod y rhai ag anghenion ychwanegol yn integreiddio'n llwyddiannus ym mywyd yr ysgol. Ceir trefniadau addas i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm ac ystod y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol a pharchu amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i safle i ddarparu amgylchedd dysgu croesawgar. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hamgylchoedd. Defnyddir ystod eang o adnoddau yn briodol i gefnogi dysgu. Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ddeniadol, wedi eu cyflwyno'n dda ac yn addysgiadol. Maent yn cyfrannu'n dda at ennyn diddordeb disgyblion a chodi dyheadau, ac maent yn dechrau helpu i gynorthwyo datblygu medrau llythrennedd disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu newidiadau sylweddol i'r tîm arweinyddiaeth. O ganlyniad, ni chafwyd cyfeiriad eglur cyson na disgwyliadau digon uchel mewn llawer o agweddau ar waith yr ysgol. Er gwaethaf y cyfnod hwn o ansefydlogrwydd, mae

arweinwyr wedi sicrhau gwelliant mewn sawl maes, fel codi safonau yng nghyfnod allweddol 3, gwella cyfraddau presenoldeb a lles disgyblion, ac ehangu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, ni fu digon o effaith ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol nac ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Yn sgil penodi pennaeth parhaol yn Ionawr, cafwyd sefydlogrwydd gwell a phwyslais cryf ar godi dyheadau a disgwyliadau. Mae gan y pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau diffiniedig. Gyda'i gilydd, maent yn rhannu gweledigaeth ar y cyd ac yn gweithio'n dda fel tîm gan ddangos ymrwymiad cryf i wella darpariaeth a deilliannau. Mae cynnwys aelodau 'cysylltiol' ar y tîm arweinyddiaeth wedi cryfhau gallu'r corff hwn trwy ddosbarthu cyfrifoldebau yn ehangach. Mae hyn yn helpu i roi ffocws craffach ar agweddau fel gosod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion.

Mae llawer o reolwyr canol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae cyfarfodydd rheolaidd y tîm arweinyddiaeth ac adrannau yn myfyrio'n briodol ar gynnydd disgyblion ac ansawdd y dysgu. Fodd bynnag, mae rhai arweinwyr pwnc yn llai effeithiol yn eu gwaith. Nid ydynt yn monitro a gwella gwaith eu timau yn ddigon da i sicrhau bod pob un o'r staff yn rhoi polisïau a mentrau ar waith yn gyson.

Mae prosesau rheoli perfformiad a threfniadau rheoli llinell yn darparu strwythur cadarn i gynorthwyo staff ac yn cyflwyno lefelau addas o atebolrwydd. Er bod targedau staff yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau a llywio rhaglen datblygiad proffesiynol yr ysgol, nid yw targedau yn ddigon manwl neu heriol mewn llawer o achosion. O ganlyniad, nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr ym mhob maes o'r ysgol ac nid ydynt wedi cyfrannu'n ddigon da at wella darpariaeth.

Mae'r ysgol wedi dechrau cymryd camau defnyddiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran ymestyn ystod y llwybrau academaidd a galwedigaethol a gwella canlyniadau mewn Cymraeg ail iaith. Nid yw wedi gwneud digon o gynnydd tuag at fodloni gofynion statudol y fframwaith llythrennedd a rhifedd nac wrth fynd i'r afael ag anfantais. O ganlyniad, nid yw'r strategaethau hyn wedi cael digon o effaith ar godi safonau mewn meysydd pwysig.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol i'r ysgol a'r pennaeth newydd. Mae ganddo ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Ceir ystod o is-bwyllgorau cynlluniedig, gan gynnwys grŵp sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddata perfformiad, ac mae cydnabyddiaeth glir o ba feysydd sy'n tanberfformio. Mae menter a gyflwynwyd yn ddiweddar lle mae'r pennaeth a llywodraethwr yn cyfarfod â phob arweinydd pwnc i drafod perfformiad mewn arholiadau yn dechrau gwella lefelau atebolrwydd.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw trefniadau hunanarfarnu a phrosesau cynllunio datblygiad yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant ar draws holl feysydd gwaith yr ysgol.

Ers penodi pennaeth parhaol, gwnaed newidiadau sylweddol sy'n helpu i gryfhau trefniadau cynllunio gwelliant. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth. Mae'n cyflwyno gwerthusiad realistig o

gryfderau a meysydd i'w gwella ar sail dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn rhoi digon o bwys i rai meysydd pwysig y mae angen eu gwella yn yr ysgol. Nid oes gan safbwyntiau rhieni a disgyblion rôl ddigon llawn yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol yn defnyddio data yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yn eu maes pwnc. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanarfarnu adrannol yn ddigon cynhwysfawr na chadarn ar y cyfan. Nid oes digon o ffocws ar arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau gwersi trylwyr a chraffu ar waith disgyblion.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu, er na chaiff y rhain eu croesgyfeirio yn eglur. Mae'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau, a gwella lles, addysgu ac asesu, profiadau dysgu disgyblion ac agweddau ar arweinyddiaeth. Nid yw'r cynllun yn nodi graddfeydd amser clir i nodi pryd y bydd camau gweithredu'n dechrau a phryd y byddant yn cael eu cwblhau. Mewn rhai achosion, mae meini prawf llwyddiant yn cynnwys cyfeiriadau addas at ddeilliannau a thargedau mesuradwy. Fodd bynnag, ar gyfer agweddau eraill, nid yw meini prawf llwyddiant wedi eu nodi'n glir. O ganlyniad, mae'n anodd barnu pa mor effeithiol oedd y ffordd y cyflawnwyd y camau gweithredu.

Mae cynlluniau datblygu adrannol yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd. Nid yw llawer ohonynt yn ymgorffori blaenoriaethau ysgol gyfan allweddol, yn diffinio camau gweithredu yn ddigon clir nac yn cynnwys costau cywir, graddfeydd amser ac arwydd o'r modd y bydd llwyddiant yn cael ei fesur. Nid ydynt yn offer effeithiol i yrru gwelliant.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael ag argymhellion allweddol o'r arolygiad blaenorol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran pa mor drylwyr y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn herio timau pwnc i wella deilliannau ac o ran sicrhau bod asesu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i godi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ystod eang o sefydliadau amlddisgyblaethol a gwirfoddol i wella ansawdd profiadau dysgu disgyblion a gwella eu lles.

Mae cysylltiadau â phartneriaid strategol wedi eu sefydlu'n dda ac yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth â rhwydwaith 14-19 Gogledd a De Powys yn gryf ac mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ymestyn ystod yr opsiynau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae'r niferoedd sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn uchel ac mae deilliannau yn cyfrannu at welliannau yn nhrothwy lefel 2. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i sicrhau ansawdd darpariaeth wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd cryf gyda'i hysgolion cynradd partner. Ceir trefniadau effeithiol i staff perthnasol ymweld â'r ysgolion cynradd i rannu gwybodaeth fugeiliol ac academaidd a thrafod anghenion dysgu disgyblion unigol. Mae disgyblion yn ymgymryd ag ystod o brosiectau pontio defnyddiol, yn

bennaf yn y pynciau craidd sy'n hyrwyddo dysgu. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu at drefniadau pontio effeithiol. Maent yn helpu disgyblion i ymgynefino'n effeithiol ym Mlwyddyn 7 a, heblaw am yr ychydig iawn o ddisgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, maent yn sicrhau parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu disgyblion.

Ceir perthnasoedd adeiladol gyda rhieni sy'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol a lles a chynnydd eu plant ar y cyfan. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynghylch mynd at yr ysgol i drafod mater penodol neu godi unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt. Fodd bynnag, nifer fach o rieni yn unig sy'n teimlo eu bod yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd a gwaith yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda. Ceir nifer ddigonol o staff cymwys sy'n cael eu defnyddio'n effeithlon. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr yn y dosbarth ac yn cyfrannu'n dda at gynnydd y disgyblion hyn.

Mae'r pennaeth, y bwrsar a'r corff llywodraethol yn rheoli materion ariannol yn ofalus. Mae gwaith partneriaeth effeithlon gydag ysgolion cyfagos yn gwneud defnydd da o adnoddau ar y cyd ac mae'n cyfrannu'n dda at ehangu'r cwricwlwm i ddisgyblion. Er bod gwarged sylweddol yn y gyllideb ar hyn o bryd, mae trefniadau clir i hyn leihau yn y ddwy flynedd nesaf.

Mae penderfyniadau am wariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella ac er budd disgyblion. Caiff cyllidebau adrannau eu dosbarthu trwy fformiwla a ddeellir yn dda, ac mae cronfa briodol wrth gefn i fodloni blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ceir gweithdrefnau priodol i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol. Mae llawer o athrawon yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd hyfforddi, er nad yw'r rhain wedi cael digon o effaith ar wella addysgu ac asesu ar draws yr ysgol. Caiff y grant amddifadedd disgyblion ei wario'n briodol ac mae'n cyfrannu at wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rhoddir llai o bwyslais ar godi dyheadau disgyblion mwy abl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a sicrhau bod y disgyblion hyn yn cyflawni eu potensial.

Yng ngoleuni'r safonau anfoddhaol a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, a bu gostyngiad sylweddol yn 2012. Bu gwelliant mewn perfformiad yn 2014 ac fe gyrhaeddodd y lefel uchaf erioed. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn gymysg o gymharu â pherfformiad ei theulu o ysgolion, ond yn 2014, mae perfformiad ychydig uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. O gymharu â disgwyliadau wedi eu modelu, mae perfformiad uwchlaw disgwyliadau.

Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella tua chwe phwynt canran er 2011 ond nid yw cynnydd wedi bod yn gyson, a bu gostyngiad sylweddol mewn perfformiad yn 2012. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu, ond yn 2014, mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 ac yn uwch wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf, ond mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd diwethaf yn gyffredinol. Yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 ac yn uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd blaenorol, gosododd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella'n gyson er 2012, pan fu gostyngiad sylweddol, ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. O ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn ansicr yn y pedair blynedd diwethaf ac yn gyson islaw cyfartaleddau'r teulu dros y cyfnod hwn. Yn 2013, gosododd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella'n gyson er 2012, ond mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2014, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Ar lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n gyson er 2012, er y bu islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. O ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 6 neu'n uwch wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Yn y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2013, mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Mae cynnydd yn cyd-fynd yn fras â disgwyliadau ar gyfer y dangosydd pwnc craidd ac uwchlaw disgwyliadau mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi gostwng o bron i saith pwynt canran yn 2014. Mae perfformiad wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu trwy gydol y cyfnod hwn. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf ac yn y 50% is yn 2013. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod islaw disgwyliadau wedi eu modelu ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Yn 2014, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella ryw 15 pwynt. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yn 2014 ar ôl bod yn y 50% is yn y flwyddyn flaenorol a'r 25% isaf yn 2012. Yn 2014, o gymharu â disgwyliadau wedi eu modelu, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio uwchlaw disgwyliadau wedi eu modelu.

Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi dirywio mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, er iddo wella'n sylweddol yn 2013. Yn 2014, mae perfformiad wedi gostwng naw pwynt canran. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad ar drothwy lefel 2 wedi gwella yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd diwethaf yn dilyn gostyngiad sylweddol yn 2012. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi aros ymhell islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Yn 2013 a 2014 fel ei gilydd, llwyddodd pob disgybl i gyflawni trothwy lefel 1. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad ar drothwy lefel 1 wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella ychydig bach yn 2014 ac wedi cyrraedd ei lefel uchaf. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, er bod y bwlch wedi lleihau i ryw ddau bwynt canran. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, ar gyfer perfformiad mewn Saesneg, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% uchaf yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd diwethaf.

Yn 2014, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gostwng rhyw bum pwynt canran. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf ac mae'r bwlch wedi cynyddu dros y cyfnod hwn i ryw 14 pwynt canran. Yn 2014, mae perfformiad mewn mathemateg yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn 2013, fe wnaeth perfformiad ei gosod yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Yn 2013, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer, roedd cynnydd disgyblion o'r cyfnodau allweddol blaenorol ymhell islaw'r cynnydd disgwyliedig ar

gyfer pob un o'r dangosyddion allweddol heblaw trothwy lefel 1, lle roedd cynnydd ychydig uwchlaw disgwyliadau.

Yn y pedair blynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi gadael addysg heb unrhyw gymwysterau ac mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae'r gyfran hon yn well na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae myfyrwyr ôl-16 yn perfformio yn unol â disgwyliadau ar y cyfan. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar y cyfan. Yn 2013, llwyddodd bron i 98% o fyfyrwyr i gyflawni trothwy lefel 3. Fodd bynnag, yn 2014, mae canran y myfyrwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi gostwng rhyw saith pwynt canran.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2014, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd ac ym mhob un o'r pynciau craidd. Er bod y bwlch yn y dangosydd pwnc craidd yn fwy na chyfartaledd y teulu, mae'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn ac mae'r bwlch yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob pwnc craidd a'r holl ddangosyddion allweddol, ac eithrio trothwy lefel 1 a phwyntiau wedi'u capio. Dyma fu'r patrwm mewn llawer o'r dangosyddion allweddol hyn dros y pedir blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae hyn wedi digwydd am fod perfformiad bechgyn ymhell islaw perfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg, ac mae perfformiad merched wedi bod yn agosach at gyfartaleddau'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf ac mae'r bwlch rhwng y disgyblion hyn a disgyblion eraill yn llawer mwy na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Yn 2014, ni wnaeth yr un disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyflawni ar y lefelau uwch mewn Saesneg na gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill. Fodd bynnag, yn 2013, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn llawer o ddangosyddion a pherfformiodd y disgyblion hyn yn well na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, trothwy lefel 1, y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, y dangosydd pwnc craidd, a Saesneg a mathemateg fel ei gilydd. Ym mhob un o'r dangosyddion hyn, roedd y bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na chyfartaleddau'r teulu hefyd.
Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2014 a ddarparwyd gan yr ysgol yn dangos bod canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg uwchlaw canran y disgyblion eraill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 142 | 44 | 95 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 31% | 67% | 2% | 0% | |
| | | 43% | 52% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 140 | 30 | 77 | 29 | 4 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 21% | 55% | 21% | 3% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 141 | 32 | 93 | 16 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 23% | 66% | 11% | 0% | |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 142 | 13 | 106 | 21 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 9% | 75% | 15% | 1% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 142 | 59 | 71 | 10 | 2 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 42% | 50% | 7% | 1% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 142 | 24 | 107 | 9 | 2 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 17% | 75% | 6% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 141 | 45 | 84 | 11 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 32% | 60% | 8% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 141 | 20 | 74 | 37 | 10 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 14% | 52% | 26% | 7% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 142 | 59 | 71 | 10 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer, gan gynnwys cyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 42% | 50% | 7% | 1% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 141 | 8 | 85 | 43 | 5 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 6% | 60% | 30% | 4% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 142 | 32 | 74 | 31 | 5 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 23% | 52% | 22% | 4% | |
| | | 29% | 50% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 139 | 11 | 91 | 32 | 5 | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 8% | 65% | 23% | 4% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 142 | 37 | 93 | 11 | 1 | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 26% | 65% | 8% | 1% | |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 141 | 34 | 85 | 17 | 5 | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 24% | 60% | 12% | 4% | |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 142 | 34 | 91 | 15 | 2 | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 24% | 64% | 11% | 1% | |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 141 | 28 | 98 | 13 | 2 | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 20% | 70% | 9% | 1% | |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 51 | 8 | 26 | 13 | 4 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 16% | 51% | 25% | 8% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 25 | 2 | 12 | 9 | 2 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 8% | 48% | 36% | 8% | |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 140 | 27 | 92 | 12 | 4 | 5 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 19% | 66% | 9% | 3% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 140 | 32 | 92 | 13 | 3 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 23% | 66% | 9% | 2% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 139 | 52 | 75 | 5 | 3 | 4 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 37% | 54% | 4% | 2% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 139 | 40 | 78 | 8 | 4 | 9 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 29% | 56% | 6% | 3% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 139 | 9 | 77 | 28 | 8 | 17 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 6% | 55% | 20% | 6% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 139 | 19 | 94 | 6 | 6 | 14 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 14% | 68% | 4% | 4% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 139 | 42 | 86 | 6 | 1 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 30% | 62% | 4% | 1% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 139 | 11 | 86 | 19 | 6 | 17 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 8% | 62% | 14% | 4% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 139 | 20 | 83 | 20 | 4 | 12 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 14% | 60% | 14% | 3% | | |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 139 | 21 | 85 | 15 | 2 | 16 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 15% | 61% | 11% | 1% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 140 | 32 | 97 | 7 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 23% | 69% | 5% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional | 132 | 27 | 66 | 12 | 4 | 23 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth |
| | | 20% | 50% | 9% | 3% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| support in relation to any particular individual needs'. | | 32% | 46% | 7% | 2% | | ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 140 | 27 | 81 | 17 | 2 | 13 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 19% | 58% | 12% | 1% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 138 | 35 | 79 | 16 | 1 | 7 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 25% | 57% | 12% | 1% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 138 | 21 | 76 | 16 | 4 | 21 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 15% | 55% | 12% | 3% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 140 | 29 | 84 | 11 | 3 | 13 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 21% | 60% | 8% | 2% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 134 | 19 | 62 | 19 | 4 | 30 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 14% | 46% | 14% | 3% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 139 | 33 | 70 | 22 | 3 | 11 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 24% | 50% | 16% | 2% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 139 | 27 | 89 | 10 | 5 | 8 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 19% | 64% | 7% | 4% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr John F Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Alwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Ms Anne Tabitha Morris | Arolygydd Tîm |
| Mrs Julie Ann Price | Arolygydd Lleyg |
| Ms Nicola Susan James | Arolygydd Cymheiriaid |

| | |
|---|---|
| Mr Steve Pattern (Dirprwy Bennaeth Dros Dro) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |